

Doniau

Darlleniad 1: 1 Corinthiaid 12

Darlleniad 2: Luc 19: 11-27

Diolch i ti, ein Tad, am y gras a'r bywyd newydd a roddaist inni trwy aberth Iesu trosom. Pâr i ni, felly, beidio â chydymffurfio â'r byd hwn, ond gadael i ti ein trawsffurfio drwy adnewyddu ein meddyliau a'n galluogi i ganfod beth yw dy ewyllys, beth sy'n dda, yn dderbyniol ac yn berffaith yn dy olwg. Diolch am ein creu yn unigolion ac am roddi inni'r ewyllys i ddewis ein llwybr yn y byd. Diolch i ti am y doniau a roddaist i bob un ohonom - doniau gwahanol ond pob un yn rhodd gennyt ti. Helpa ni i ddatblygu'r ddawn neu'r dalent a roddaist inni a dysg ni i rannu â'n gilydd a chydweithio er gogoniant i ti. Diolchwn i ti am rai a dderbyniodd ddoniau arbennig iawn gennyt ac a gysegrodd y doniau hynny er clod a gogoniant i ti.

Diolchwn i ti am ddawn yr arlunydd sy'n medru cyflwyno inni neges weladwy a chofiadwy. Yn y dyddiau pan oedd llawer yn anllythrennog, fe roddaist ti i'r arlunydd ddawn i adrodd stori ystyrion wrthynt mewn lliw, er mwyn eu helpu i'th addoli di. Diolch am brydferthwch eglwysi lle gweli mor amlwg ddoniau'r arlunydd a'r cerflunydd. Mae eu gwaith yn dal drwy'r oesau i ni ei edmygu a'i werthfawrogi. Diolch am luniau enwog sy'n rhoi mynegiant mor glir i ddigwyddiadau neu brofiadau. Diolch am y lluniau a'r cerfluniau sy'n portreadu dioddefaint Iesu drosom, a diolch am y rhai sy'n dangos Iesu atgyfodedig mewn mawredd, yn orchfygwr angau a'r bedd. Gwerthfawrogwn hefyd y rhai a fu'n rhoi ar gynfas beth o ryfeddod dy gread, yn lluniau coed a blodau, anifeiliaid ac adar, mynyddoedd a dyffrynnoedd. Mae'r oll yn gysegredig. Agor ein llygaid ninnau i'r gogoniannau hyn.

Diolchwn i ti hefyd am ddawn y llenor, y bardd a'r emynydd. Meddylw'n am yr Esgob Morgan a fu mor ddiwyd yn cyfieithu'r Beibl ac yn ei gyflwyno i ni mewn iaith gyhyrog a graenus. Diolch amdano ef a'i gydweithwyr ac am y rhai a fu ar ei ôl yn llafurio yn yr un maes. Diolchwn am ein cyfieithiad diweddar o'r Beibl ac am ddoniau'r ysgolheigion a'r llenorion a fu wrthi am flynyddoedd yn

gweithio'n galed i'w gyflwyno i ni. Helpa ni i werthfawrogi eu hymdrech. Diolchwn am amryfal lenyddiaeth, yn farddoniaeth a rhyddiaith a gyfansoddwyd i fawrygu'th enw, i ddyrchafu Crist ac i ehangu'r deyrnas. Diolch am y beirdd hynny a fedrodd rannu gyda ni brofiadau personol, ac am ambell emynydd a gyffyrddodd dant ein calon. Gyda hwy medrwn orfoleddu, cyffesu ein pechodau, a'n hailgyflwyno'n hunain wrth ryfeddu at degwch Iesu.

‘Rhosyn Saron yw ei enw,
Gwyn a gwridog, teg o bryd;
Ar ddeng mil y mae'n rhagori
O wrthrychau penna'r byd.’

Diolch am eiriau ac am y rhai sy'n gwybod sut i'w trin. Bu'r cerddor yntau wrthi gyda'i ddawn yn cyfansoddi miwsig ar gyfer yr emynau a'r farddoniaeth. Diolchwn am doniau'r cerddorion ac yn arbennig am y rheiny a roddodd inni weithiau fel y *Meseia* a chyfansoddiadau cyfoethog a mawreddog eraill. Diolchwn hefyd am leisiau cyfoethog sy'n cael eu defnyddio i ganu mawl i ti. Wrth inni fawrygu'r doniau, gad inni gofio mai eiddot ti yw pob dawn.

Molwn, felly, y rhai enwog am eu doniau arbennig, y rhai a ddaeth â chyfoeth a lliw i'n bywydau bob dydd. Ond na ad i ni anghofio'r rhai na adawodd enw ar eu hôl, y rhai distadl a ddefnyddiodd eu doniau cyffredin hyd eithaf eu gallu. Mae gan bawb ohonom ryw ddawn neu'i gilydd y gallwn ei datblygu. Boed inni beidio â chwerwi os na chawsom ddawn fawr neu dalent anghyffredin. Yn hytrach boed inni ymroi i ymarfer y dalent a roddwyd i ni. Gwna ni'n well gweision i ti yn ein meysydd arbennig, a dyro inni'r gostyngeddwydd i fodloni ar feithrin un dalent er gogoniant i ti. Pa dasg bynnag y gofynnir inni ei chyflawni, boed inni wneud hynny'n llawen.

Cyflwynwn ein hunain i ti gan ofyn am faddeuant am bob bai drwy Iesu Grist ein Gwardwr. Amen.

John Owen